

Cofnodion 20/6/2022

Presennol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Clwyd Davies (Is-gadeirydd) a W D Williams.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 23/5/2022. Cofnodwyd diolch unwaith eto i'r Cyngorydd Alan Jones Evans am drefnu i waith cael ei wneud ar ffordd Rhosygwaliau. Hefyd mae'r tyfiant wrth y bont wedi ei dorri er diogelwch gyrwyr.
5. Materion y Clerc:
 - i. Gwiriwyd terfynau'r Fynwent ar gyfer y Gofrestrfa a chyfarwyddwyd y Clerc i barhau gyda'r trefniadau gyda'r Cyfreithwyr ac i arwyddo ar ran y Cyngor. Nodwyd ffi'r Cyfreithwyr a ffi debygol y Gofrestrfa.
 - ii. Rhoddodd y Clerc adroddiad o'r gweithgaredd bioamrywiaeth yn y fynwent 9/6/22 pryd yr oedd 11 o blant yn bresennol.
6. Cynllunio: Cymeradwywyd cais **Adeiladu tŷ deulawr ar wahân ar gyfer gweithiwr amaethyddol, adeiladu garej ar wahân, a gosod tanc carthion Tir yn Pant-y-Ceubren, Llanuwchllyn. LL23 7DD** Rhif Cais **NP5/71/117F**
7. Ariannol:
 - a. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a oedd yn dangos fod pob peth ariannol mewn trefn.
 - b. Ystyriwyd y Ffurflen Flynyddol gan gynnwys y Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/21. Cytunodd yr aelodau i'r Ffurflen Flynyddol gael ei hanfon at yr Archwilydd allanol ac arwyddwyd hi gan y Cadeirydd.
 - c. PAYE: datganodd y Clerc ei bod wedi cwblhau'r gwaith papur ac y bydd yn trosglwyddo'r PAYE i HMRC
 - d. Cytunodd y Clerc i brynu "dongle" i'r Cyngor i'w ddefnyddio ar gyfer Zoom yn y Neuadd, ac i'r Cyngor i ddigolledi'r Clerc am hyn.

8. Derbyn adroddiadau – dim.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Medi 12, 2022